# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Mill Row**

**Abertawe**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Mill Row

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Tan Yr Allt Lodge Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 4 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Rhagfyr 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | 'Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.' |

## Crynodeb

Mae tîm o weithwyr gofal sefydledig, y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn gweithio gyda'i gilydd i gyrraedd canlyniadau'r bobl. Cefnogir y bobl i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Mae'r ddogfennaeth gofal a'r cymorth a roddir yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Caiff y bobl eu cynnwys yn y broses o adolygu eu canlyniadau personol. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr proffesiynol ar gyfer asesiadau arbenigol pan fo angen. Mae angen eglurder ar ganlyniadau'r asesiadau hyn i sicrhau bod y bobl yn cael y cymorth a argymhellir. Mae'r lefelau staffio yn dda ac mae gan y mwyafrif o'r staff y sgiliau a'r gallu i reoli'r cartref ac i gefnogi'r unigolion sy'n byw yno; fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar gyfer yr holl staff a allai fod yn gyfrifol am gyfnod o amser.

Mae'r prosesau recriwtio yn dda iawn ac mae cyfnod sefydlu pum diwrnod ar gyfer gweithwyr newydd, a chymorth ar waith i gwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol, a gwelsom fod y staff yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt ac yn cael sesiynau goruchwylio unigol rheolaidd. Caiff cyfarfodydd tîm eu cynnal a gall y staff gael cymorth bob amser gyda gweithiwr ar alwad pan fydd y rheolwr yn absennol.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom ryngweithio caredig a gofalgar gan staff sy'n adnabod y bobl yn dda. Mae'r gweithwyr gofal yn amyneddgar ac yn deall anghenion y bobl.

Caiff y bobl eu cefnogi i fynd i leoedd sydd o ddiddordeb iddynt fel rhan o'u harferion wythnosol. Caiff eu dymuniadau ar gyfer gwyliau a theithiau allan eu hystyried pan fydd cynlluniau yn cael eu gwneud. Gwelsom luniau o'r bobl yn mwynhau digwyddiadau cymdeithasol a chaiff y rhain eu cadw fel rhan o gofnodion gweithgareddau'r bobl yn eu cynlluniau personol. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau cymdeithasol yn cael eu trefnu yn y sefydliad, lle bydd gan bobl sy'n byw mewn lleoliadau gwahanol y cyfle i gymdeithasu.

Mae'r bobl yn cael lleisio eu barn a chaiff hyn ei hwyluso mewn cyfarfodydd cartref ac yn 'Fy Nghyfarfodydd' misol y bobl lle caiff canlyniadau personol y bobl eu hadolygu. Gellir datblygu hyn ymhellach drwy wahodd cynrychiolwyr neu aelodau teulu y bobl i gyfrannu, yn enwedig os byddai gan y bobl lai o allu i gyfrannu. Caiff y bobl eu cefnogi i gael dewis ac mae'r darparwr yn parhau i weithio tuag at y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sydd wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf. Gall y staff ddangos gwybodaeth ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau diogelu'r cwmni a'r awdurdod lleol. Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau y caiff asesiadau gofal y bobl eu hadlewyrchu yn eu cynlluniau personol a bod y gofal a ddarperir yn sicrhau diogelwch y bobl a'r llesiant gorau.

Mae'r lefelau staffio yn dda ac mae'r staff yn cael hyfforddiant a chymorth sy'n eu galluogi i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da. Mae angen gwneud gwelliannau pellach i sicrhau bod proses ar waith i wneud yn siwr bod gan y staff sy'n gyfrifol am y cartref ddigon o brofiad a sgiliau i gynnal diogelwch y bobl y maent yn eu cefnogi.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cofnodion gofal yn electronig ac mae'r system hon wedi cael ei datblygu ymhellach ers yr arolygiad diwethaf. Mae cynlluniau personol y bobl yn fanwl iawn. Mae'r gweithwyr gofal yn defnyddio dyfeisiau a ddelir â llaw i ychwanegu ymyriadau gofal (megis gweithgareddau neu gymeriant maethol), wrth iddynt gael eu cynnal. Mae hyn yn golygu y caiff cofnodion 'amser real' eu cadw. Caiff cynlluniau personol eu hadolygu bob mis. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth a gofnodir bob amser yn gywir ac yn adlewyrchu'r lefel bresennol o gymorth a ddarperir. Caiff y bobl eu cynnwys yn y broses adolygu a gwnaethom drafod sut gall y darparwr sicrhau bod cynrychiolwyr y bobl yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y broses hon bob tri mis. Er y gwnaed atgyfeiriadau at weithwyr

proffesiynol ar gyfer asesiadau arbenigol, nid yw'r cynlluniau personol a'r cynlluniau codi a chario a welwyd yn adlewyrchu'r asesiadau hyn a'r camau gweithredu a argymhellir. Cafodd risgiau eu trafod ynghylch, er enghraifft, symudedd y bobl a sut y gallai penderfyniadau budd pennaf sicrhau mesurau i leihau'r risgiau ac i hybu diogelwch. Ar ben hynny, ni allai pob aelod o'r staff nodi canlyniadau'r bobl a sut a ble i gael gafael ar y cynlluniau personol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Ar y cyfan, mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn gweithio gyda'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwnaed atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol yn ôl yr angen, a gwelsom gofnodion o'r apwyntiadau y mae'r bobl yn mynd iddynt â chymorth, i sicrhau bod eu hiechyd a'u llesiant yn cael eu cynnal.

Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r prosesau meddyginiaeth ers yr arolygiad diwethaf. Caiff meddyginiaethau bellach eu storio yn y brif swyddfa sydd ag uned aer dymheru i sicrhau bod y meddyginiaethau'n cael eu storio yn y tymheredd cywir. Mae amgylchedd y swyddfa yn galluogi'r staff i gael mwy o amser i ganolbwyntio wrth baratoi meddyginiaethau. Caiff cofnodion rhoi meddyginiaeth eu cwblhau i safon dda gan gynnwys cofnodion meddyginiaethau fel y bo angen ychwanegol. Mae'r rheolwr yn cwblhau archwiliadau rheolaidd ac mae'r staff yn gwirio ac yn cofnodi cydbwysedd meddyginiaethau bob dydd.

## Yr Amgylchedd

Mae gan y darparwr wiriadau amgylchedd ar waith i sicrhau diogelwch y bobl sy'n byw yn Mill Row. Gwelsom dystysgrif gosodiadau trydanol. Cwblheir y gwasanaethau nwy yn ôl yr angen. Mae asesiad risg tân ar waith a chwblhawyd gwiriadau rheolaidd ar gyfer diffoddwyr tân a chyfarpar tân yn y 12 mis diwethaf. Caiff archwiliadau rheolaidd eu cwblhau megis rhai iechyd a diogelwch a rheoli ac atal heintiau, gan sicrhau bod y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth.

Gall y bobl ddefnyddio rhannau o'r cartref a'r ardd yn annibynnol fel y nodwyd yn eu cynllun personol a'u hasesiadau. Cafwyd trafodaethau ar y defnydd o dechnoleg gynorthwyol megis synwyryddion drws i roi gwybod i'r staff gefnogi'r bobl a allai fod angen cymorth ychwanegol. Rhoddodd y rheolwr wybod bod larwm cynnil fel arfer ar y drws ffrynt i roi gwybod i'r staff os bydd rhywun yn mynd i mewn i'r cartref. Fodd bynnag, nid oedd hwn yn gweithio yn ystod y ddau ymweliad arolygu. Rhoddodd y rheolwr sicrwydd i ni y bydd cysylltiad y drws â'r larwm yn cael ei wirio. Dywedwyd wrthym fod llyfr llofnodi ar gael, fel arfer er mwyn i bobl ei gwblhau wrth ymweld â'r cartref. Gwelsom fod hwn ar gael yn ystod un o'n hymweliadau.

Mae ardaloedd byw y bobl yn bersonol iddynt. Gall y bobl gael gafael ar eitemau personol sy'n bwysig iddynt. Caiff y bobl eu cynnwys yn y gwaith o addurno eu hystafelloedd a dewis eu cynllun lliw. Mae gan rai ystafelloedd gyfleusterau cegin fechan a gall y bobl eu defnyddio i wneud diodydd a byrbrydau ac mae hyn yn hyrwyddo eu hannibyniaeth ymhellach neu eu proses adsefydlu lle y bo'n briodol. Cafodd y cartref ei addurno'n barod ar gyfer y Nadolig ac roedd yn ymddangos yn lân a chartrefol gydag awyrgylch hamddenol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gwaith recriwtio yn mynd rhagddo. Gwelsom lefelau staffio digonol yn ystod ein hymweliadau â'r cartref. Er bod rhai aelodau -o'r staff y gwnaethom gyfarfod â nhw yn brofiadol iawn ac yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi'n dda, nid yw hyn yn wir am bob aelod o'r staff. Mae canlyniadau, diogelwch a llesiant y bobl mewn perygl pan na all y staff dibrofiad eu cefnogi'n ddigonol.  Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Roedd y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd drwy gasglu adborth a chynnal gwiriadau rheolaidd. Mae ffurflenni adborth yn y dderbynfa a phroses ddienw electronig i alluogi'r staff, y bobl a'r ymwelwyr i roi adborth am y gwasanaeth a ddarperir. Caiff damweiniau a digwyddiadau eu hadolygu mewn cyfarfod wythnosol â thîm uwch-reolwyr y sefydliad. Caiff adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal ei gwblhau bob chwe mis ac mae'n dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol wedi dadansoddi data mewn perthynas â'r gwasanaeth ac wedi ystyried arsylwadau, digwyddiadau ac adborth y bobl. Gellir datblygu hyn ymhellach drwy ehangu ar y gwelliannau a wnaed a sut mae'r rhain wedi gwella canlyniadau i'r bobl.

Mae gweithdrefnau addas ar waith i fonitro'r prosesau ar gyfer recriwtio, hyfforddi a chefnogi'r gweithwyr gofal. Gwnaethom edrych ar gofnodion recriwtio'r cyflogeion a gwelsom fod y gwiriadau cyn cyflogaeth gofynnol yn cael eu cynnal. Mae hyn yn cynnwys gwirio geirdaon, awdurdodiadau hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r staff yn gadarnhaol iawn am yr hyfforddiant a gânt a'r cymorth sydd ar waith. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiwn sefydlu 'wyneb yn wyneb' am bum diwrnod yn ogystal â hyfforddiant ar-lein cyn dechrau gweithio yn y cartref. Caiff hyfforddiant arbenigol ychwanegol ei ddarparu a chaiff ei benderfynu yn unol ag anghenion y bobl a gefnogir. Cawsom wybod: *"We get the training we need for the people we support" and "It is an amazing company to work for. All the training is in place. They support progression and they will look into doing any kind of training".*

Caiff sesiynau goruchwylio unigol eu darparu bob mis i weithwyr newydd ac yna'n chwarterol. Gwelsom gofnodion a myfyrdodau manwl yn y cofnodion goruchwylio a'r arfarniadau blynyddol.  Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael llawer o

gefnogaeth a chânt gymorth bob amser pan fydd y rheolwr yn absennol ac y bydd uwch-aelod o staff wedi'i neilltuo ar ddyletswydd. Mae'r staff yn gwybod sut i gysylltu â'r Unigolyn Cyfrifol. Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd ac mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn bresennol ynddynt. Dywedodd y staff wrthym *“There is a lot of support….The manager is lovely and we get regular supervision every 3 months”* a “*The manager is really supportive …… approachable and will do their best for you”.*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 21 | Ni chaiff gofal a chymorth eu darparu bob amser yn unol ag asesiadau gweithiwr proffesiynol a chynllun personol yr unigolyn. Mae angen i'r darparwr ystyried asesiadau proffesiynol a sicrhau bod y cynlluniau personol yn gywir ac yn darparu'r gofal a'r cymorth a nodir. | Newydd |
| 34 | Nid yw'r darparwr yn sicrhau bod staff profiadol, cymwys, a rhai sy'n meddu ar y sgiliau addas ar ddyletswydd bob amser. Mae angen i'r darparwr sicrhau bod y staff a adawyd i fod yn gyfrifol am y cartref yn gymwys gyda'r profiad addas i sicrhau diogelwch a llesiant y bobl. | Newydd |
| 67 | Cynhaliwyd arolygiad llawn ar 20 Rhagfyr 2022. Er bod rheolwr wedi'i benodi yn y gwasanaeth nid yw wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru eto. | Cyflawnwyd |
| 21 | Cynhaliwyd arolygiad llawn ar 20 Rhagfyr 2022. Fel rhan o hyn, cynhaliwyd archwiliad o brosesau rhoi meddyginiaeth. Gwelwyd rhai bylchau yn y cofnodion meddyginiaeth heb unrhyw esboniad. | Cyflawnwyd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/01/2024